

---

## **Gwasanaethau rhaglenni ar-alwad:**

Adroddiad gwasanaethau mynediad 2016/17

---

**DATGANIAD**

Dyddiad Cyhoeddi: 19 Rhagfyr 2017

# Gair am y ddogfen hon

---

Mae'r ddogfen hon yn nodi i ba raddau roedd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad wedi darparu is-deitlau, disgrifiadau sain neu iaith arwyddion yn ystod dau gyfnod: Ion-Rhag 2016 ac Ion-Gorff 2017. Mae'n caniatáu i Ofcom, defnyddwyr, y diwydiant a'r Llywodraeth fesur y cynnydd o ran gwneud gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu clyw a/neu ar eu golwg. Caiff ei gyhoeddi ochr yn ochr ag ymgynghoriad 'Sut dylid gwneud Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad yn hygyrch?'<sup>1</sup> sy'n cael ei gynnal er mwyn cyfrannu at waith y llywodraeth yn drafftio rheoliadau ar hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad.

---

<sup>1</sup> Mae'r ymgynghoriad ar y wefan: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/odps-accessibility/>

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb

1

# 1. Crynodeb

- 1.1 Mae Ofcom yn rheoleiddio ystod eang o wasanaethau rhaglenni ar-alwad, sy'n amrywio o wasanaethau dal i fyny darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau ffilmiau i archifau teledu lleol a gwefannau i 'oedolion'.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn, a'r teclyn data rhyngweithiol cysylltiedig<sup>2</sup>, yn rhoi gwybodaeth ar i ba raddau mae gwasanaethau ar-alwad o'r fath yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu clyw a/neu ar eu golwg. Un ffordd allweddol gall darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad wneud hyn ydy drwy ddarparu eu rhaglenni gydag is-deitlau, iaith arwyddion a/neu ddisgrifiadau sain ("gwasanaethau mynediad" ydy'r enw ar y rhain gyda'i gilydd).
- 1.3 Er bod yn rhaid i ddarlledwyr gyrraedd targedau hygyrchedd penodol, ar hyn o bryd nid oes dim gofyniad statudol ar ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad i wneud eu gwasanaethau yn hygyrch. Fodd bynnag, mae Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn gosod y sylfaen ar gyfer rheoliadau a fydd yn mynnu mwy o hygyrchedd yng nghyswllt gwasanaethau rhaglenni ar-alwad.
- 1.4 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn ystod dau gyfnod: Ionawr-Rhagfyr 2016; ac Ionawr-Gorffennaf 2017.

## Prif ganfyddiadau

- 1.5 Yn ystod y cyfnod cyfun rhwng mis Ionawr 2016 a mis Gorffennaf 2017:
  - a) Nid oedd 62% o ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad wedi darparu unrhyw wasanaethau mynediad gyda'u rhaglenni (ychydig yn is na'r 68% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016).
  - b) Er bod 38% o ddarparwyr wedi cynnig rhywfaint o isdeitlau, dim ond 8% oedd yn darparu gwasanaeth iaith arwyddion.
  - c) Mae'r ganran o ddarparwyr sy'n cynnig disgrifiadau sain wedi codi o 6% i 11%.
  - d) Rydyn ni'n dal i weld darpariaeth ddarniog o ran gwasanaethau mynediad pan ddefnyddir gwasanaethau rhaglenni ar-alwad drwy lwyfannau 'ystafell fyw' mawr fel Virgin a Sky. Mae pethau wedi gwella rhywfaint, ond nid yw'n gyson ac mae darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn dal i sôn am rwystrau technegol o ran darparu cynnwys sydd ag is-deitlau ar draws amrywiaeth o lwyfannau gwahanol.

---

<sup>2</sup> Mae'r ymgynghoriad ar y wefan: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/odps-accessibility/>

## Y camau nesaf

- 1.6 Er bod Ofcom yn croesawu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud, rydyn ni'n nodi bod y gwelliannau wedi bod yn weddol araf ac yn anghyson. Rydyn ni'n credu y dylai defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a/neu ar eu golwg gael yr ystod lawn o ddewis sydd ar gael iddyn nhw ar deledu darlledu.
- 1.7 Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, mae Ofcom wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad a fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at waith y llywodraeth yn drafftio rheoliadau yn y maes hwn.
- 1.8 Yn y cyfamser byddwn yn parhau i ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr perthnasol a rhanddeiliaid y diwydiant i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r hyn sydd well gan ddefnyddwyr a rhwystrau'r diwydiant rhag eu cyflawni.